**Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant**

**DISGRIFIAD SWYDD PENNAETH**

| | |
|---|---|
| TEITL Y SWYDD: | Pennaeth |
| LLEOLIAD: | Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EZ |
| GRADDFA GYFLOG: | L9–L15 [£64,174–£74,384] |
| MATH O GYTUNDEB: | Parhaol |
| YN ATEBOL I: | Y Corff Llywodraethol |
| DYDDIAD CYCHWYN: | Medi 2026 |
| CYFRIFOLDEB DROS: | Y staff a gyflogir yn yr ysgol |

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gatholig ymroddedig mewn gair a gweithred a fydd, fel arweinydd ffydd, yn gyfrifol am amddiffyn, meithrin a datblygu'r ethos Catholig a'r weledigaeth addysg Gatholig yn yr ysgol, ac yn meddu ar y rhinweddau personol, y sgiliau a'r gwerthoedd i wneud hynny.

## 1. PWRPAS Y SWYDD

Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth yr ysgol ac am ddatblygiad ei bywyd Catholig.

Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth, trefniadaeth fewnol, a rheolaeth lwyr yr ysgol yn unol â:

- telerau eich penodiad fel y'u hamlinellir yng nghontract cyflogaeth CES,
- offerynnau llywodraethu'r ysgol,
- darpariaethau'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw orchmynion a rheoliadau sydd mewn grym o dan y ddeddfwriaeth berthnasol,
- unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wnaed naill ai gan y corff llywodraethol, Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw, neu'r awdurdod lleol,
- unrhyw gynllun a baratowyd neu a gynhelir o dan Adran 48 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

## 2. DYLETSWYDDAU PROFFESIYNOL

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

### Dyletswyddau cyffredinol

- Disgwylir i chi lynu wrth amodau eich contract cyflogaeth CES a'r safonau arweinyddiaeth ar gyfer penaethiaid. Byddwch yn dangos tystiolaeth o hyn fel rhan o'ch proses rheoli perfformiad.
- Mae'n ofynnol i chi ddangos safonau uchel cyson o ymddygiad personol a phroffesiynol.
- Byddwch yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles y plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt neu yr ydych yn dod i gysylltiad â nhw. Byddwch yn gwerthfawrogi ac yn parchu barn ac anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn.

**Trefniadaeth yr ysgol gyfan**

- Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a chydag eraill arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau strategol ein hysgol Gatholig.
- Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol.

**Addysgu**

- Arwain a rheoli ein staff addysgu a'n staff cymorth i sicrhau safon uchel o ddysgu ac addysgu yn yr ysgol.
- Sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, bod athro wedi'i neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion.

**Iechyd, Diogelwch a Disgyblaeth**

- Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff.
- Sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.

**Rheoli Staff ac Adnoddau**

- Arwain, rheoli a datblygu'r holl staff, gan gynnwys gwerthuso a rheoli perfformiad.
- Cynghori'r corff perthnasol ar argymhellion cyflog i athrawon. Bydd hyn yn cynnwys a ddylai athro yn yr ysgol a wnaeth gais i gael ei dalu ar yr ystod gyflog uchaf gael ei dalu ar yr ystod honno.
- Trefnu a defnyddio adnoddau yn effeithiol.
- Hyrwyddo perthnasoedd gwaith cytûn.
- Cynnal perthnasoedd â sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau staff eraill.
- Arwain a rheoli staff gyda sylw priodol i'w lles a'u disgwyliadau cyfreithlon, gan gynnwys y disgwyliad o gydbwysedd iach rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill.

**Datblygiad Proffesiynol**

- Hyrwyddo cyfranogiad yr holl staff mewn DPP perthnasol.
- Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer gwerthuso ac adolygu eich perfformiad eich hun a, lle bo'n briodol, perfformiad athrawon eraill a staff cymorth.
- Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eich hyfforddiant a'ch datblygiad proffesiynol pellach eich hun a, lle bo'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill, staff cyflenwi a staff cymorth gan gynnwys sefydlu staff.

**Cyfathrebu**

- Ymgynghori a chyfathrebu'n effeithiol â'r corff llywodraethol, y staff, y disgyblion, y rhieni a'r gofalwyr.

**Gweithio gyda Chydweithwyr a Gweithwyr Proffesiynol Perthnasol eraill**

- Cydweithredu a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi gan gynnwys asiantaethau a chyrff allanol perthnasol.

**Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant**

- Arwain y gwaith o ddatblygu defnydd yr iaith Gymraeg ledled yr ysgol, gan ysgogi ei staff a'i dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr wrth iddi drawsnewid i fod yn ysgol Categori 2 (Ysgol Ddwy Iaith).
- Hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol ac wrth ymgysylltu â'r plwyf a'r gymuned ehangach.

**3. MANYLEB PERSON**

Bydd gennych:

- Statws Athro Cymwysedig ac, yn ddelfrydol, y CCRS a'r/neu'r Rhaglen Arweinyddiaeth mewn Ysgolion Eglwysig,
- CPCP: noder y bydd ceisiadau'n cael eu hystyried oddi wrth athrawon profiadol nad ydynt yn dal y cymhwyster CPCP gorfodol ar hyn o bryd ond sy'n fodlon ymrwymo i gyflawni hyn o fewn tair blynedd o'u penodiad,
- y gallu i ddarparu arweinyddiaeth ysgol,
- profiad o gynllunio ar gyfer gwella ysgol gydag ymrwymiad clir i adolygu, monitro a datblygu.

Mae'r ddogfen Manyleb Person sy'n berthnasol i'r swydd hon yn rhoi gofynion pellach o dan y categorïau ynddi.